Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL
15 Rhagfyr 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol - Cofrestr Ymrwymiadau |
| AWDUR: | Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried Cofrestr Ymrwymiadau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi'r Gofrestr Ymrwymiadau a'r adroddiad blaen.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Sicrhau bod yr Is-bwyllgor yn cael ei hysbysu am yr ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwywyd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) a'r Cynllun Cyflanwi Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) cysylltiedig i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Cydbwyllgor Corfforedig ym mis Gorffennaf 2025. Cymeradwywyd yr RTP a'r RTDP gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025.

4.2. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r weledigaeth ar gyfer trafnidiaeth yng ngogledd Cymru ynghyd â'r polisïau a fydd yn llunio buddsoddiad yn y dyfodol ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth yn y rhanbarth. Mae hefyd yn cynnwys cyfres o ddyheadau ar gyfer y Rhwydweithiau Rheilffyrdd a Ffyrdd Strategol.

4.3 Mae'r RTDP yn cynnwys y cynlluniau trafnidiaeth a'r ymyriadau y dymunai pob awdurdod lleol eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a fydd yn helpu i gyflawni'r weledigaeth a'r polisïau yn y Cynllun hwnnw. Mae'r cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn yr RTDP oll wedi eu halinio â pholisïau yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fel y gellir gweld yn glir pa bolisïau y bydd y cynllun yn eu cefnogi.

## 5. COFRESTR YMRWYMIADAU

5.1. Yn ogystal â'r polisïau a'r ymrwymiadau hynny o'r RTP a'i ddogfennau cysylltiedig y gellir eu symud ymlaen drwy gynlluniau RTDP, ceir hefyd nifer o ymrwymiadau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol ond nad ydynt o fewn cylch gwaith awdurdodau lleol unigol i'w symud ymlaen fel cynlluniau RTDP. Yr ymrwymiadau yw'r pethau hynny y mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn y sefyllfa orau i'w symud ymlaen neu gefnogi eu cyflwyniad. Mae'r rhain wedi eu cofnodi mewn 'Cofrestr Ymrwymiadau', a ddangosir yn Atodiad 1.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

5.3. Mae'r Gofrestr Ymrwymiadau yn ystyried:

- Yr ymrwymiad a wnaed yn yr RTP neu'r Adroddiad Ymgynghori
- Pa bwnc neu bolisi perthnasol o'r RTP y mae'r ymrwymiad yn ymwneud ag ef
- Unrhyw gynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r RTP ac ystyried gwaith i'r dyfodol
- Unrhyw gymorth a allai fod ei angen i weithredu gwaith yn y dyfodol

5.4. Bwriedir i'r Gofrestr Ymrwymiadau fod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru yn unol â'r cynnydd yn erbyn pob un o'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

6.2. Dylid nodi y gallai fod angen caffael gwasanaethau cymorth arbenigol er mwyn gwneud cynnydd ar rai o'r ymrwymiadau. Rhagwelir y bydd y costau hyn yn cael eu talu o ddyraniad Rheoli Rhaglenni Uchelgais Gogledd Cymru o'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn deillio o'r adroddiad hwn.

---

ATODIADAU:
Atodiad 1 – Cofrestr Ymrwymiadau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:
Rwy'n cefnogi creu cofrestr ymrwymiadau a fydd yn galluogi'r Is-bwyllgor i olrhain cynnydd y CJC wrth gyflawni ei ddyletswydd statudol mewn perthynas â pholisi trafnidiaeth

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn ymrwymo Uchelgais Gogledd Cymru i wariant ychwanegol ac nid oes gennyf wrthwynebiad i gynnwys yr adroddiad.